

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.wales / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Ben Smith
Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Canolfan Ddinesig,
Heol Ystumllwynarth,
Abertawe,
SA1 3SN

Cyfeirnod: AGW058/ng
Dyddiad: 9 Mehefin 2021

Annwyl Ben

Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Archwiliad Cyfrifon 2020-2021
Hysbysiad o Apwyntio Dyddiad ar gyfer Gweithredu Hawliau'r Cyhoedd

Rhoddir hysbysiad fy mod i wedi apwyntio 9 Awst 2021 am 9.00 yb fel y dyddiad, neu ar ôl y dyddiad hwn, y gall etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy, weithredu eu hawl yn ôl adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i gwestiynu'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â, neu wneud gwrthwynebiad i gyfrifon y flwyddyn a bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

A fyddech cystal â chydabod yn ysgrifenedig i chi dderbyn yr hysbysiad yma.

Mae adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel a bennwyd ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2014) yn ei gwneud yn ofynnol fod y cyfrifon a dogfennau penodol eraill ar gael er mwyn i'r cyhoedd gael eu harolygu. Mae'r cyfnod ar gyfer arolygu cyhoeddus yn 20 diwrnod gwaith llawn cyn y dyddiad a apwyntiwyd yn ôl yr hysbysiad yma, a dylid rhoi 14 diwrnod o rybudd o ddechreuad y cyfnod arolygu cyhoeddus.

Yn dilyn diwygiadau 2018 i Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2014, rhaid arddangos rhybudd ar wefan yr awdurdod ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ei ardal. Dylwn fod yn ddiolchgar pe baech yn anfon mewngof i mi i'r dudalen we sy'n dangos yr hysbysiad a chadarnhad o'r lleoliad (au) lle mae'r hysbysiad yn cael ei arddangos.

Yn gywir



Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru